

Un Llais Cymru



One Voice Wales

# AROLWG COSTAU BYW 2023/24

Mai 2024



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

# Crynodeb:



**Mae'r Argyfwng Costau Byw wedi dod yn her o bwys sy'n effeithio cymunedau ledled Cymru, wrth i brisiau godi a phwysau economaidd gael effaith amlwg ar fywydau beunyddiol pobl. Cynhaliodd prosiect.**

Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru arolwg i asesu beth oedd lefel ymwybyddiaeth o'r argyfwng ymhlith Cynghorau Cymuned & Thref, eu hymateb i'r argyfwng ac adnabod y prif feysydd lle y mae cymunedau yn wynebu'r heriau tybiedig mwyaf arwyddocaol.

Defnyddiwyd canlyniadau'r arolwg a dadansoddiad ohonynt i gynorthwyo tîm y prosiect i sefydlu adnodd arbenigol o fewn Un Llais Cymru i gynghori Cynghorau Cymuned & Thref ar draws Cymru er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i'w Cymunedau wrth i'r Argyfwng Costau Byw ddyfnhau a mynd yn fwy difrifol.

*'Mae'r Argyfwng Costau Byw yn parhau ac yn cael effeithiau mwy difrifol ar aelwydydd yng Nghymru. Mae'n cael effaith ddifäol a chyfansawdd ar fywydau llawer o bobl, ac mae'r rhagfynegiadau economaidd yn awgrymu y bydd yr argyfwng yn parhau ymhell i mewn i 2024 ac y bydd yn cael canlyniadau hirdymor.'*

*The Living Standards Outlook 2023 • Resolution Foundation*



# PRIF GANFYDDIADAU:



## YMWYBYDDIAETH UCHEL, GWEITHREDU CYFYNGEDIG

Er bod 97% o gynghorau yn dweud eu bod yn ymwybodol o'r argyfwng costau byw, dim ond gan 53% y mae cynlluniau i fynd i'r afael â'r mater ar hyn o bryd. Mae'r bwlch yn amlygu'r angen hollbwysig i geisio troi ymwybyddiaeth yn weithredu effeithiol.



## MEYSYDD ALLWEDDOL O ANGEN CYMUNEDOL TYBIEDIG:

Mae'r prif feysydd y credir y mae pobl yn eu hwynebu yn cynnwys fforddio gwres a thrydan (81%), tai (65%), a thrafnidiaeth (63%). Mae'r meysydd hyn yn cynrychioli anghenion dybryd sy'n cynnig potensial i Gynghorau Cymuned & Thref ffocysu eu hymdrechion er mwyn cael yr argraff fwyaf.



## ANGEN AM GEFNOGAETH GYMUNEDOL:

Mae cryn alw tybiedig am gefnogaeth gymunedol mewn meysydd megis cefnogaeth i bobl ifanc (56%), cyngor ar fudd-daliadau & rheoli dyledion (50%), a gweithgareddau i bobl hŷn (49%). Mae'r anghenion hyn yn cynnig glasbrint i'r Tîm Prosiect Argyfwng Costau Byw ddatblygu a thargedu gwasanaethau cynghori all yn eu tro gefnogi Cynghorau Cymuned & Thref i ddatblygu a thargedu gwasanaethau ar gyfer cymunedau.



## YMGYSYLLTU & CHYFATHREBU:

Mae'r canlyniadau yn tanlinellu hefyd yr angen i ymgysylltu mwy gyda phobl leol ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael a mentrau sydd ar waith, ac mae 61% o Gynghorau Cymuned & Thref yn dweud nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am rolau cynghorau yn mynd i'r afael â'r argyfwng.



# PRIF GANFYDDIADAU & THEMÂU:



## TRAFFERTHION AC ADNABOD ANGHENION

Mae mwyafrif arwyddocaol (97%) o Gyngorau Cymuned & Thref yn ymwybodol o'r argyfwng costau byw, sy'n dangos cydnabyddiaeth eang o'r mater. Soniodd nifer o Gyngorau Cymuned & Thref am y trafferthion gweladwy yn eu cymunedau.

“Ydym. Rydyn ni'n ei weld a'i deimlo o'n cwrpas wrth i fusnesau a phobl gyffredin ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd”.

Er gwaetha'r lefel uchel hon o ymwybyddiaeth, dim ond 53% o gyngorau sydd wrthi'n cynnal mentrau i fynd i'r afael â'r argyfwng, sy'n dangos fod bwlch rhwng ymwybyddiaeth a gweithredu.

Er bod ymwybyddiaeth ymhlith bob cyngor bron o'r Argyfwng Costau Byw, mae hynny'n cyferbynnu'n amlwg iawn gyda'r gyfran sy'n mynd ati o ddifrif i holi trigolion am fentrau perthnasol. Mae'r bwlch hwn yn tanlinellu datgysylltiad posib rhwng adnabyddiaeth cyngorau o'r argyfwng a'u cysylltiad gyda phrofiadau bywyd y gymuned ac awgrymiadau ar gyfer atebion ystyrlon.

“Gan ein bod yn byw mewn ardal wledig, mae gallu defnyddio trafndiaeth yn hanfodol, a chan nad oes unrhyw drafndiaeth gyhoeddus yn yr ardal mae bod yn berchen ar gar yn hanfodol.”

Er bod ymwybyddiaeth yn gam cyntaf hollbwysig, caiff effeithiolrwydd unrhyw ymateb ei gryfhau'n sylweddol pan gaiff ei lunio gan y sawl y mae'n ceisio eu cefnogi. Gallai'r bwlch hwn awgrymu'r angen am ddulliau llywodraethu mwy rhagweithiol a chynhwysol, lle y mae Cyngorau nid yn unig yn croesawu mewnbwn pobl leol ond yn mynd ati o ddifrif i chwilio amdano.

Cynhaliodd un cyngor gyfarfod cyhoeddus ym mis Ionawr 2024 i gynnig llwyfan ar gyfer trafodaeth, ond dywedodd sawl cyngor ar y llaw arall eu bod yn ei chael anodd iawn ennyn ymateb gan bobl leol er gwaethaf eu hymdrechion gorau.

Roedd Cyngorau'n barnu fod y prif feysydd y mae pobl yn cael anawsterau â nhw yn cynnwys fforddio gwres a thrydan (81%), tai (65%), a thrafnidiaeth (63%) ac mae hyn yn amlygu'r angen dybryd i dargedu cefnogaeth ac ymyriadau.



# PRIF GANFYDDIADAU & THEMÂU:

## IMENTRAU A CHYNLLUNIAU CEFNOGI

Mae cryn amrywiaeth yn y mathau o fentrau y mae cynghorau yn eu cynnal ar hyn o bryd, a dywedodd nifer arwyddocaol (47%) nad oedd ganddynt unrhyw fentrau ar waith ar y pryd. Ymhlith y mentrau gweithredol, cyfarfod pobl eraill/grwpiau cymdeithasol, lleoedd cynnes/twym, a gweithgareddau i bobl hŷn yw'r rhai mwyaf cyffredin.



Roedd Cynghorau Cymuned & Thref yn credu hefyd fod angen cefnogaeth gymunedol ar gyfer rhaglenni ieuencid (56%), cyngor ar fudd-daliadau & rheoli dyledion (50%), a gweithgareddau i bobl hŷn (49%). Mae'r meysydd hyn yn hollbwysig er mwyn gwella ansawdd bywyd a llesiant cymunedau.

**“Roedd (ward) Grosvenor yn rhif 5 yn rhestr nifer y parseli bwyd a ddsbarthwyd gan Fanc Bwyd Wrecsam y llynedd”**

Mae'r arolwg yn amlygu natur amlweddog yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu, a chredir fod nifer arwyddocaol yn ei chael yn anodd gallu fforddio angenrheidiau hanfodol fel gwres, trydan, tai, a bwyd.

Rhannodd cynghorau fanylion rhai o'r mentrau unigryw y maent yn cyfrannu atynt. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod angen mwy o gefnogaeth strwythuredig mewn meysydd fel rheoli dyledion a chefnogaeth i bobl ifanc.

Mae mentrau lleol blaengar, fel tyfu llyisiau cymunedol, yn arddangos y potensial ar gyfer atebion creadigol i fynd i'r afael ag agweddau o'r Argyfwng Costau Byw. Mae'r ymdrechion hyn yn cynnig budd yn syth ond maent hefyd yn gwneud cymunedau yn fwy cydnerth ac unedig.

Dangosir yr amrywiaeth yn y ffordd y caiff prosiectau o'r fath eu cyflwyno yn yr adborth, ac mae'n amlygu cyfle pwysig i Gynghorau Cymuned & Thref ddysgu oddi wrth ei gilydd. Gall Prosiect CoLC Un Llais Cymru rannu mentrau llwyddiannus ac annog cynghorau eraill i fabwysiadu cynlluniau tebyg.

**“Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn tyfu ffrwythau a llyisiau ac mae croeso i'r Gymuned helpu'u hunain iddynt”**



# PRIF GANFYDDIADAU & THEMÂU:



## YMWYBYDDIAETH A MANTEISIO AR GYLLID

Mae canran fechan o gynghorau wedi llwyddo cael arian grant i gefnogi pobl leol, a chadarnhaodd 9% y cawsant llwyddiant. Mae ymwybyddiaeth yn isel hefyd, a dywedodd 20% o Gynghorau Cymuned & Thref nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am grantiau sydd ar gael. Mae'r amrywiaeth o ran yr ymwybyddiaeth o gyfleoedd am arian grant a llwyddiant yn cael arian yn awgrymu fod hwn yn faes y gellid gweithio ynddo i wella eu gallu i gefnogi trigolion.

Mae chwilio am gyfleoedd ariannol, boed trwy geisiadau grant neu bartneriaethau, yn gallu rhoi adnoddau ychwanegol i Gynghorau Cymuned & Thref i ddatblygu rhagor o gynlluniau i gefnogi'r gymuned. Gallai gwasanaeth CoLC Un Llais Cymru ddatblygu gwasanaethau i roi gwybod i Gynghorau Cymuned & Thref am gyfleoedd ariannu wrth iddyn nhw ddod ar gael, a byddai hynny'n cryfhau eu gobaith o sicrhau mwy o gymorth ariannol.

**“Rydyn ni'n danfon ebyst bob hyn a hyn yn tynnu sylw at gyfleoedd ariannu”**

## EHANGU STRATEGAETHAU CYFATHREBU

Yn gyffredinol mae Cynghorau'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol (66%) a hysbysfyrdau (74%) i gyflwyno gwybodaeth am gymorth a mentrau, a gwelir symudiad tuag at dulliau cyfathrebu digidol a hygyrch.

Mae'r ddibyniaeth ar gyfryngau cymdeithasol a hysbysfyrdau fel prif gyfryngau cyfathrebu yn dangos eu bod wedi addasu ar gyfer dulliau cyfathrebu modern a hygyrch. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y strategaethau hyn yn dibynnu ar eu cyrhaeddiad ac ar i ba raddau maen nhw'n ymgysylltu ag elfennau amrywiol y gymuned.

Mae cryfhau strategaethau cyfathrebu nid yn unig yn golygu ehangu'r dulliau a ddefnyddir ond hefyd sicrhau bod y negeseuon yn glir, hygyrch, ac ymatebol i anghenion esblygol trigolion.



# PRIF GANFYDDIADAU & THEMÂU:

## ADEILADU A THREFNU CYDWEITHIO

Mae pwysigrwydd cydweithio mewn cymunedau a gyda sefydliadau allanol yn amlwg yn thema hollbwysig. Gall cydweithio â grwpiau cymunedol lleol, busnesau, a mudiadau gwirfoddol gryfhau ymdrechion Cyngorau Cymuned & Thref i fynd i'r afael â'r Argyfwng Costau Byw.



Partneriaethau gyda mudiadau gwirfoddol (50%) sydd fwyaf cyffredin, sy'n dangos dibyniaeth gref ar y Trydydd Sector i ddarparu gwasanaethau a chymorth hollbwysig. Mae cydweithio gyda busnesau (20%) a chyrff Llywodraeth (24%) yn llai cyffredin, a gall hwnnw fod yn gyfle na chafodd ei ddefnyddio'n ddigonol i alluogi Cyngorau Cymuned & Thref i ehangu eu rhwydweithiau cefnogaeth a sicrhau adnoddau ychwanegol.

**“Yn ddiweddar buom yn cefnogi Cwpwrdd Bwyd Yr Orsedd i gymryd eu camau cyntaf ac mae wedi bod yn llwyddiant mawr yn y pentref.”**

**“Rydyn ni'n gweithio gyda grŵp cymunedol newydd (Grwp LLanNi) i geisio sefydlu Hwb Cymunedol gydag arian y Loteri Fawr gyda chymorth Dyfodolau Gwledig.”**

Mae hyn yn dangos yn berffaith sut all cydweithio arwain at fecanweithiau cymorth cynaliadwy. Gall cryfhau'r cydweithio hwn wella gallu Cyngorau Cymuned & Thref i ddefnyddio adnoddau, rhannu gwybodaeth, a chydlynu ymatebion yn fwy effeithiol..



# UN LLAIS CYMRU: RHAGLEN WAITH Y PROSIECT ARGYFWNG COSTAU BYW



“Rwy’n teimlo y gellid darparu mwy o wybodaeth i Gyngorau Tref & Chymuned ar sut i ddarparu cymorth mwy realistig a chyflawnadwy i helpu’r gymuned leol.”

Gall Un Llais Cymru, sef y corff sy’n cynrychioli Cyngorau Cymuned & Thref yng Nghymru, chwarae rhan allweddol yn cydlynu a chryfhau ymdrechion i fynd i’r afael â’r Argyfwng Costau Byw ar y lefel leol.

Ers cychwyn y prosiect Costau Byw, mae’r tîm wedi casglu llawer iawn o wybodaeth, gan gynnwys yr Arolwg Argyfwng Costau Byw, i ddatblygu rhaglen waith arfaethedig i gefnogi Cyngorau Cymuned & Thref yn eu hymdrechion i liniaru effeithiau’r argyfwng hwn ar eu cymunedau.

“Mae gwybodaeth ar gael am yr heriau ond nid yw bob tro’n glir beth all cyngorau tref a chymuned ei wneud”

TMae canfyddiadau’r arolwg yn cadarnhau’r pwysau economaidd ehangach sy’n effeithio ar gymunedau a’r angen i dargedu cymorth. Hefyd, mae natur amrywiol yr anawsterau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd mentrau wedi’u teilwra sy’n mynd i’r afael ag anghenion penodol yn hytrach nac un ateb i bopeth. .

Rhaid i unrhyw gynlluniau cefnogi gydnabod ac ymateb i gymhlethdod yr argyfwng trwy gyflwyno nifer o fentrau gwahanol sydd rhyngddynt yn mynd i’r afael â sbectrwm yr heriau y mae cymunedau yn eu hwynebu.





# UN LLAIS CYMRU: RHAGLEN WAITH Y PROSIECT ARGYFWNG COSTAU BYW

“Byddai cael gwybodaeth am bob un o’r uchod yn gymorth. Yn enwedig os oes enghreifftiau o weithgareddau y mae cynghorau cymuned yn eu cynnal y gallem ni eu hefelychu.”



I’r perwyl hwnnw, mae’r Tîm Prosiect Argyfwng Costau Byw yn bwriadu cyflawni rhaglen waith fydd yn cynnwys 6 Maes ‘Gweithredu’ thematig:

M  
A  
E  
S  
  
G  
W  
E  
I  
T  
H  
R  
E  
D

1



Lleoedd  
Cymunedol a  
Chynnes

- Hybiau Cynnes/Twym
- Grwpiau Cymdeithasol
- Gweithgareddau i Bobl Hŷn
- Grwpiau Diddordebau



2



Bwyd

- Prydau Bwyd am Ddim
- Banciau Bwyd
- Oergelloedd Cymunedol
- Clybiau Cinio



3



Iechyd &  
Llesiant

- Grwpiau Ymarfer
- Gweithgareddau Llesiant
- Cefnogaeth Iechyd Meddwl
- Rhoddion Elusenol



4



Dillad &  
Ailbwrpasu

- Banciau Dillad
- Caffis Atgyweirio
- Sgipiau Cymunedol
- Banciau Cyfnewid Dillad/Gwisg Ysgol



5



Budd-daliadau,  
Cyllidebu & Rheoli  
Dyledion

- Cyngor ar Fudd-daliadau
- Cymorth i Gyllidebu
- Gwybodaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus
- Cyfleusterau bancio



6



Trafnidiaeth

- Bysiau Cymunedol
- Rhannu Ceir
- Cludiant Ysbyty
- Olwynion i’r gwaith



# UN LLAIS CYMRU: RHAGLEN WAITH Y PROSIECT ARGYFWNG COSTAU BYW

O dan y meysydd Gweithredu hyn, mae'r prosiect yn awgrymu defnyddio'r prif elfennau canlynol.

## ADEILADU CAPASITI & HYFFORDDIANT


- **Gweminarau & Gweithdai Hyfforddiant:** cynnig cyfres o weminarau a gweithdai sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion costau byw yr ymdrinnir â nhw ymhob un o'r chwe Maes Gweithredu.
- **Rhannu Arfer Gorau** – hwyluso sesiynau i gynghorau er mwyn rhannu dulliau blaengar a mentrau llwyddiannus i fynd i'r afael â heriau costau byw.

## HWB GWYBODAETH & ADNODDAU

- **Gwe Hwb** - fel rhan o Wefan Un Llais Cymru, bydd llecyn Costau Byw pwrpasol yn cael ei sefydlu lle y gall cynghorau fanteisio ar storfa helaeth o adnoddau gan gynnwys Astudiaethau Enghreifftiol, Pecynnau Gwaith, recordiadau o Weminarau blaenorol ac ati.
- **Datblygu Pecyn Gwaith** – datblygu pecynnau gwaith ar gyfer Cynghorau Cymuned & Thref ar agweddau gwahanol o fynd i'r afael â'r Argyfwng Costau Byw megis sefydlu banciau bwyd, hybiau cynnes, gwasanaethau trafndiaeth gymunedol a gwasanaeth cefnogaeth gymunedol eraill.

## RHWYDWEITHIO & CHYDWEITHIO

- **Rhwydwaith Argyfwng Costau Byw:** Sefydlu llwyfan i Gynghorau Cymuned & Thref i gysylltu, rhannu profiadau, ac efallai ffurfio partneriaethau gyda chynghorau eraill.
- **Mentrau ar y cyd:** Annog a hwyluso'r gwaith o ddatblygu mentrau ar y cyd ymhlith cynghorau i fynd i'r afael â heriau cyffredin sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw.
- **Mecanweithiau Adborth:** Gall hwn fod yn ffordd i Gynghorau ddarparu adborth ar yr heriau maen nhw'n eu hwynebu a'r gefnogaeth maen nhw ei hangen, er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau'n ymatebol a pherthnasol.
- **Gwybodaeth am Effaith:** Bydd y rhwydwaith yn rhoi cyfle hefyd i ddeall effaith yr Argyfwng Costau Byw mewn cymunedau ac adnabod ymyriadau effeithiol.



# UN LLAIS CYMRU: RHAGLEN WAITH Y PROSIECT ARGYFWNG COSTAU BYW

## BLAENGYFEIRIO & CHYFATHREBU

- **Cymorth gyda Chyfryngau Cymdeithasol:** cynnig hyfforddiant & adnoddau i helpu cynghorau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a sianeli cyfathrebu eraill yn effeithiol er mwyn cyrraedd ac ymgysylltu â'u cymunedau.
- **Ymwybyddiaeth Gyhoeddus & Blaengyfeirio:** cefnogi cynghorau i ddatblygu a chyflwyno ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus am y cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i helpu pobl i ddod o hyd i'w ffordd drwy'r argyfwng costau byw.

## CYMORTH EIRIOLAETH A PHOLISI

- **Cynrychiolaeth:** Eiriol ar ran Cynghorau Cymuned & Thref i lywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol am bolisiau ac adnoddau sy'n mynd i'r afael â'r Argyfwng Costau Byw ac yn bwysig iawn cynnig cydnabyddiaeth i'r gwaith sy'n cael/a gafodd ei wneud.
- **Arweiniad Polisi:** Rhoi arweiniad i Gyngorau Cymuned & Thref ac arweiniad ar ddod o hyd i'w ffordd drwy'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol wrth gyflwyno mentrau argyfwng costau byw.

Cynlluniwyd y rhaglen hon o ddigwyddiadau a gweithgareddau i fynd i'r afael â'r prif faterion tybiedig a godwyd yn yr arolwg. Bydd y rhaglen yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith nad oes gan bob Cyngor Cymuned & Thref yr un adnoddau, a bydd unrhyw allbynnau yn ystyried anghenion/gallueddau Cynghorau mawr a bach.

Trwy weithio mewn ffordd sy'n cynnwys cyfuniad o hyfforddiant, adnoddau, eiriolaeth, a chydweithio, gall Un Llais Cymru rymuso Cynghorau Cymuned & Thref i gyflwyno datrysiadau effeithiol, rhannu arferion gorau, a meithrin ysbryd cydweithiol wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn. Bydd y rhaglen hon nid yn unig yn mynd i'r afael â'r anghenion ar y pryd, ond bydd hefyd yn cyfrannu at adeiladu cymunedau cydnerth sy'n gallu wynebu heriau eraill i'r dyfodol.

Am fwy o wybodaeth am brosiect Argyfwng Costau Byw Cymru Un Llais cysylltwch â'r tîm yn [CoLC@onevoicewales.wales](mailto:CoLC@onevoicewales.wales)

